**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod a Thrais yn erbyn Menywod a Phlant**
**Cross Party Group on Women & Violence Against Women and Children**

**Dydd Gwener 19 Ionawr, 10.00-11.00 (drwy Teams)**

**Cofnodion**

| Yn bresennol | Ymddiheuriadau |
|---|---|
| Siân Gwenllian AS<br>Sioned Williams AS<br>Jessica Laimann, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (RhCM)<br>Jennifer Mills, Cymorth i Ferched Cymru<br>Leah Reed, Prifysgol Caerdydd<br>Victoria Vasey, RhCM<br>Maddie Darlington, RhCM<br>Alisa Stevens<br>Andrea Cooper, Comisiynydd Pobl Hŷn<br>Sarah Thomas, Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched<br>Yr Athro Jackie Jones, Grŵp Menywod yn Ewrop (Cymru)<br>Megan Evans, RhCM<br>Stephanie Grimshaw, Cymorth i Ferched Cymru<br>R Roberts<br>Evelyn James, RhCM<br>Helen Churcher<br>Patience Bentu, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol<br>Race Equality First<br>Steve Williams, Chwaraeon Cymru<br>Shivangi<br>Jane Fenton-May, Cynulliad Merched Cymru<br>Rob Jones<br>Dr Alison Parken, Prifysgol Caerdydd<br>Abigail Rees, Barnardo's<br>Andrew Belcher, Stori Cymru<br>Bryn Hall, Clinks<br>Johanna Robinson, Cynghorydd Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol<br>Tina Fahm, Bawso<br>Megan Thomas, Anabledd Cymru<br>Hade Turkmen, Oxfam Cymru<br>Victoria Pledger<br>Kate Williams, Prifysgol De Cymru<br>Alison Parken, Prifysgol Caerdydd | Heledd Fychan AS<br>Delyth Jewell AS<br>Llyr Gruffydd AS<br>Carmel Boston, Prifysgol Caerdydd<br>Sara Kirkpatrick, Cymorth i Ferched Cymru<br>Y Cynghorydd Mary Ann Brocklesby, Bwrdd RhCM<br>Kate Jones, Thrive Women's Aid |

| **Eitem** | **Yn arwain** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **12:00-12:05 Croeso, cyflwyniad ac ymddiheuriadau**<br><br>• Croeso<br>• Ymddiheuriadau<br>• Atgoffwyd pawb am y ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd a'r cyfarwyddiadau<br>• Esboniwyd yr agenda | Siân Gwenllian AS |
| **Mabwysiadu'r Cod Ymddygiad**<br><br>1. Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod<br>• Darllenwyd y cod ymddygiad<br>• Cefnogwyd gan Anabledd Cymru<br>• Pleidlais: cefnogwyd gan aelodau'r Grwp Trawsbleidiol ar Fenywod<br><br>2. Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant<br>• Pleidlais: cefnogwyd gan aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant | Jessica Laimann, RhCM<br><br>Jennifer Mills, Cymorth i Ferched Cymru |
| **Profiad Menywod Cymru yn y System Carchardai**<br><br>**Y cefndir:**<br>• Canfyddiadau rhagarweiniol gwaith ymchwil PhD sy'n edrych ar brofiadau menywod o Gymru mewn carchardai yn Lloegr<br>• Llywodraeth y DU yn San Steffan sy'n parhau i fod yn gyfrifol am Gymru a Lloegr. Pan drafodir y System Cyfiawnder Troseddol, mae Lloegr yn parhau i gael mwy o sylw na Chymru.<br>• Oherwydd rôl datganoli, mae Cymru'n cael ei hystyried yn wahanol. Nid yw dyletswyddau Llywodraeth Cymru yn cynnwys plismona na chyfiawnder troseddol ond mae rheolaeth dros bolisi cymdeithasol yn allweddol i lunio hunaniaeth datganoli yng Nghymru.<br>• Mae gan system cyfiawnder troseddol Cymru ganlyniadau cymharol wael. Cymru sydd â'r gyfradd uchaf ond un o ran carcharu menywod o blith yr holl ranbarthau lle caiff hyn ei fesur, ac mae rhagamcanion Llywodraeth y DU yn disgwyl i'r gyfradd barhau i godi. Cymru sydd â'r cyfraddau carcharu uchaf ond dau o blith holl wledydd Gorllewin Ewrop.<br>• Er gwaetha'r ystadegau hyn, nid oes carchar i fenywod yng Nghymru. Mae menywod o Gymru ym mhob carchar yn Lloegr, ac mae pob menyw sy'n cael ei charcharu 'y tu allan i'w rhanbarth' 101 o filltiroedd o'i chartref ar gyfartaledd.<br>• Mae menywod yn cael eu carcharu i raddau helaeth am droseddau di-drais, gyda 23% yn cael eu carcharu am fis neu lai. Mae mwy na 77% o'r menywod hyn yn cael eu carcharu am lai na blwyddyn.<br>• Gwnaed rhywfaint o waith empirig â'r nod o geisio deall profiadau pobl o Gymru sydd yn y carchar. Dangoswyd eu bod yn anweledig mewn dwy ffordd: nid yw menywod o Gymru yn cael sylw i raddau helaeth mewn sgyrsiau ac mae Cymru yn cael ei hanwybyddu yn gyffredinol.<br>• Mae menywod o Gymru yng Ngharchar Eastwood Park yn wynebu problemau penodol yn ymwneud ag ymweliadau gan eu plant ac mae dynion o Gymru wedi sôn am broblemau'n ymwneud â mynediad i'r Gymraeg, hunaniaeth, gwahaniaethu a'r pellter o'u cartefi.<br>• Fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn, gwaned cais i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Cyngor Ymchwil Cenedlaethol i gyfweld â menywod o Gymru sydd yn y carchar ond fe'i gwrthodwyd ar y sail ei fod yn 'dyblygu gwaith ymchwil'. | Leah Reed, Ymchwilydd PhD, Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd |

| | |
|---|---|
| • Cyflwynwyd Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ond ni chafwyd ateb eto, mae'n anghynaladwy dibynnu ar hyn. Mae wir angen sicrhau bod data penodol i Gymru wedi'u dadgyfuno ar gael.<br>• Gofynnodd Leah a allai unrhyw un helpu gyda mynediad at ddata neu bobl sydd â phrofiad personol.<br><br>**Canfyddiadau Cychwynnol y Gwaith Ymchwil:**<br>• Mae menywod yn profi colledion sylweddol cyn, yn ystod ac ar ôl cael eu carcharu, y mae llawer ohonynt yn gysylltiedig â cham-drin domestig yn gyfredol ac yn ystod eu plentyndod, salwch meddwl, a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r carchar yn ychwanegu at y colledion hyn.<br>• Mae darparu gwasanaethau 'ar wahân' tra bydd menywod yn y carchar ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau yn effeithio ar y gefnogaeth sydd ar gael, yn enwedig pan fydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn mynd yn groes i wasanaethau datganoledig.<br>• Mae bod yn bell o gartref yn gwaethygu problemau sy'n gysylltiedig â bod yn y carchar e.e. iechyd meddwl, diffyg ymweliadau gan deulu a phlant a chynnal cyswllt ystyrlon. | |
| **Trafodaeth a chwestiynau gan y gynulleidfa**<br><br>• SG: ydych chi'n credu mai aildroseddu yw'r rheswm, yn rhannol, mai ni sydd â'r gyfradd garcharu uchaf ond un yn Ewrop?<br>  ○ Ddim yn siŵr ond mae'r lefelau aildroseddu yn arwyddocaol.<br>• JM: mae rhagdybiaeth yn y Bil Dedfrydu yn erbyn dedfrydau byr, beth fydd goblygiadau hynny yn eich barn chi ac ydych chi'n credu bod unrhyw beth arall y gallem fod yn galw amdano?<br>  ○ Teimlo bod hyn wedi cael ei grybwyll sawl gwaith ond does dim byd byth yn newid. Mae addewidion wedi cael eu gwneud, ond mae'r cyfraddau carcharu'n codi, felly amser a ddengys<br>• VV: oes unrhyw ddata gan fenywod o Gymru sy'n cael eu cadw ar remánd a beth yw effeithiau cael eu dal ar remánd ymhell i ffwrdd o'r llys?<br>  ○ Ddim yn credu bod gennym ddata ar hyn. Mae'n anodd cyfweld â menywod tra byddant yn y carchar ac yn anoddach nodi'r rhai sydd ar remánd ond mae astudiaethau achos o'r gwaith hwn lle mae menywod yn sôn am bellter o'r llys ac effaith hynny.<br>• BH: mae'n bwysig tynnu sylw at yr anawsterau yn sgil y ffaith nad oes data ar wahân ar gael ar gyfer Cymru. Cysylltwch â ni am help a chymorth.<br>• PB: teimlo nad oes awydd i ofyn am garchardai menywod yng Nghymru, ond o ystyried bod gennym rai o'r cyfraddau uchaf o fenywod yn y carchar ac effaith y pellter hwnnw ar iechyd meddwl menywod, sut allwn ni fynd i'r afael â'r her hon?<br>  ○ Mae angen bod yn fwy creadigol a meddwl am y darlun ehangach. Mae'r rhan fwyaf o'r menywod hyn yno am droseddau di-drais felly a oes angen iddynt fod yn y carchar neu a allem ystyried adsefydlu cymunedol effeithiol?<br>• JR: mae taith bywyd menywod yn dangos bod cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r lefel y mae hynny'n digwydd eto yn arwyddocaol. Dim ond drwy dreulio cyfnod hirach yn y carchar y gall menywod gymryd rhan mewn rhaglenni, a dim ond wedyn y bydd rhai menywod yn teimlo eu bod yn gallu manteisio ar gymorth ac ailgysylltu â'u plant.<br>• Cyfeirodd JR at ymgynghoriad y cyngor dedfrydu ar ddedfrydau carchar a dedfrydau cymunedol: https://www.sentencingcouncil.org.uk/news/item/imposition-of-community-and-custodial-sentences-guideline-to-be-revised/ | |

| | |
|---|---|
| • JFM: galw am rannu gwybodaeth yn well ar draws gwasanaethau cyhoeddus. A yw'r gyfradd garcharu'n uwch yng Nghymru oherwydd diffyg cyllid ar gyfer rhaglenni cymorth amgen yng Nghymru?<br>• KW: gallwn ddysgu llawer o'r ffordd y llwyddodd cyfiawnder ieuenctid i leihau'r boblogaeth garchardai yng Nghymru. Dylai'r Cyngor Dedfrydu fod yn edrych ar Gymru ac yn gosod rheolau gwahanol i fenywod. Mae arnom angen dewisiadau amgen hyfyw y gall llysoedd fod yn hyderus ynddynt fel y gallant roi'r gorau i ddefnyddio'r carchar.<br>• SW: Roedd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi clywed bod diffyg gwybodaeth am y glasbrint troseddwyr benywaidd ymhlith ynadon sy'n cynnwys llawer o'r materion a drafodwyd heddiw. A yw eich ymchwil wedi cyffwrdd â hyn neu a ydych chi wedi siarad ag ynadon?<br>• SW: mae pwyntiau data wedi cael eu trafod o'r blaen a gwnaethant drafod cael arsyllfa uned ddata ar gyfer cyfiawnder troseddol a'r gwahaniaeth y byddai'n ei wneud pe bai gennym hyn yng Nghymru – a allech chi ddweud pam?<br>• LR: mae ynadon yn fater sy'n parhau i godi mewn darnau eraill o ymchwil academaidd, ac mae diffyg gwybodaeth yn aml. Byddai o blaid yr arsyllfa ond tynnodd sylw at waith Dr Rob Jones ar hyn.<br>• SG: a ddylem ysgrifennu at 4 Comisiynydd Heddlu a Throseddu Cymru yn esbonio pam y mae angen y data hyn arnom?<br>• SG: mae angen i ni ddatganoli cyfiawnder yn ei gyfanrwydd felly a ddylid anfon llythyr at arweinwyr y pleidiau gwleidyddol yn nodi'r dadleuon o blaid ac yn gofyn eu barn ar hyn. | Cam gweithredu: llythyr<br><br>Cam gweithredu: llythyr |
| **Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Grŵp Menywod yn Ewrop (Cymru)**<br>• Mae llywyddiaeth bresennol yr UE, sef Gwlad Belg, yn edrych ar hawliau dynol cenhedlaeth gyntaf, democratiaeth a hawliau dynol, trosglwyddo'r llywyddiaeth i Hwngari ym mis Gorffennaf a phryderon ynghylch hawliau menywod.<br>• Mabwysiadodd Senedd yr UE adroddiad ar buteindra, gan symud rhywfaint yn nes at y model Nordig/Cydraddoldeb wrth i etholiadau Senedd yr UE ym mis Mai agosáu.<br>• Symud tua'r dwyrain. Albania, Bosnia, Herzegovina, Moldofa, Georgia, Montenegro, Gogledd Macedonia, Serbia, Wcráin a Thwrci i gyd yn gwneud cais am aelodaeth a fydd yn newid y pwyslais.<br>• Pwyllgor GREVIO yn dod i archwilio Cymru yr wythnos nesaf. | Yr Athro Jackie Jones<br><br>Cam gweithredu: JM i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am GREVIO yng nghyfarfod nesaf y grŵp trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod |
| **Unrhyw fater arall**<br>• Mae 100 diwrnod wedi mynd heibio bellach ers dechrau bombardiad Gaza. Gwyddom fod llawer o erchyllterau wedi cael eu cyflawni yn erbyn menywod a phlant.<br>Cynigiodd SW ddrafftio llythyr at Lywodraeth y DU yn galw am gadoediad ar unwaith.<br>• Mae cyfarfod nesaf y grŵp trawsbleidiol ar Fenywod wedi'i drefnu ar gyfer 15 Mawrth 10:00-11:00 | Cam gweithredu: SW i ddrafftio llythyr |

| | |
|---|---|
| • Mae cyfarfod nesaf y grŵp trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod wedi'i drefnu ar gyfer 15 Mawrth 11:00-12:00 | |